

# SL(5)569 - Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfirwyr at Gostau Byw (Cymru) 2020

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn llywodraethu atebolrwydd dros fenthyciad myfirwyr sydd gan fyfirwyr llawnamser sy'n cael benthyciadau at gostau byw gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd 2020/2021.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer dileu hyd at £1,500 o atebolrwydd benthyciwr dros fenthyciad at gostau byw o dan amgylchiadau penodol, gyda effaith o'r diwrnod ar ôl y dyddiad yr ystyrir bod ei addaliad cyntaf ar ei fenthyciad wedi ei gael.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Mae'r Rheoliadau hyn yn dilyn datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg ar 31 Mai 2019, "Cyllid a chymorth i fyfirwyr o'r UE a fydd yn astudio yng Nghymru yn 2020/21", a nododd fel a ganlyn:

"Bydd myfirwyr o'r UE sy'n bwriadu astudio yng Nghymru yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21 yn gymwys i'r un ffioedd dysgu â myfirwyr Cymru, a byddant yn gymwys i gael benthyciadau a/neu grantiau o Gyllid Myfirwyr Cymru, yn amodol ar feini prawf cymhwysedd sydd eisoes yn cael eu defnyddio.

Mae'r penderfyniad hwn yn parhau â'r polisi cyfredol a bydd myfirwyr yn gymwys i gael cymorth hyd nes y gorffennant eu cwrs. Mae hyn yn berthnasol i bob opsiwn cyllid sydd ar gael gan Gyllid Myfirwyr Cymru i fyfirwyr yng Nghymru y mae myfirwyr o'r UE yn gymwys i'w gael. Mae'n cynnwys benthyciadau i dalu am ffioedd dysgu (i'r rheini sy'n byw yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd ers tair blynedd), benthyciadau a grantiau cynhaliaeth (sydd ond ar gael i'r rheini sy'n byw yn y DU ers o leiaf tair blynedd), a rhai grantiau a lwfansau eraill.

Nid yw'r rheolau ar gyfer myfirwyr o'r UE a fydd yn gwneud cais am le mewn prifysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21 i ddilyn cwrs lle rhoddir cymorth i'r myfirwyr wedi newid. Bydd Cyllid Myfirwyr Cymru yn asesu'r ceisiadau hyn ar sail y meini prawf cymhwysedd, ac yn darparu benthyciadau a/neu grantiau yn y ffordd arferol. Bydd myfirwyr o'r UE, neu aelodau o'u teuluoedd, yr asesir eu bod yn



gymwys i gael grantiau a/neu fenthyciadau yn parhau'n gymwys tra byddant yn astudio ar y cwrs hwnnw."

## Ymateb y Llywodraeth

---

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### **Cynghorwyr Cyfreithiol**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**7 Gorffennaf 2020**



Senedd Cymru

**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

Welsh Parliament

**Legislation, Justice and Constitution Committee**